**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy 2025**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2(iii)(b). Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil a gyflwynwyd gan Senedd y DU, yn rhinwedd gwelliannau a gyflwynwyd, yn gwneud darpariaeth am y tro cyntaf mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y **Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy 2025** ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin, Senedd y DU ar 14 Mai 2025. Gosodais LCM ar 9 Mehefin 2025.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU saith gwelliant ar 6 Hydref 2025 i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, a ddigwyddodd ar 15 Hydref 2025. Mae tri gwelliant yn ystyried materion datganoledig fel y'u disgrifir ym mharagraffau 11 i 23 isod.

4. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, i'w weld yn: Cyhoeddiadau Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy - Biliau Seneddol - Senedd y DU.

## Amcan(ion) y Polisi

5. Darparwyd Amcanion Polisi'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd yn y Senedd ar 9 Mehefin 2025, sy'n parhau'n gywir.

## Crynodeb o'r Bil

6. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd yn y Senedd ar 9 Mehefin 2025, sy'n parhau'n gywir.

## Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod datblygiad y Bil ac mae'r cysylltu hwnnw wedi parhau ar lefelau Gweinidogion a swyddogion yn ôl y gofyn.

## Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

8. Yn fy marn i, mae angen LCM atodol mewn perthynas â’r gwelliannau a wnaed i gymalau 1, 6 ac 8 fel y’u disgrifir isod:

**Cymal 1:**
Yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo cwmni sy'n eiddo i'r llywodraeth i ddarparu cymorth i nodi cynhyrchwyr tanwydd hedfan cynaliadwy y dylid dyrannu contractau sicrwydd refeniw iddynt.

9. Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod is-adrannau (5) a (6) newydd yng nghymal 1 – gweler Cymal 1, tudalen 2, llinell 5.

10. Mae cymal 1(1) o'r Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo cwmni sy'n eiddo i Weinidog y Goron (y parti i’r contract) i gynnig ymrwymo i gontract sicrwydd refeniw gyda chynhyrchydd tanwydd hedfan cynaliadwy.

11. Mae is-adran (5)(a) newydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo cwmni perthnasol i ddarparu cymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol i nodi cynhyrchwyr tanwydd hedfan cynaliadwy y gellir gwneud cyfarwyddyd mewn perthynas â nhw o dan is-adran (1). Mae is-adran newydd (5)(b) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliadau i'r cwmni mewn perthynas â'r cymorth hwnnw.

12. Mae is-adran (6) newydd yn cadarnhau bod "cwmni perthnasol" yn gwmni sy'n eiddo i Weinidog y Goron.

13. Gan fod y gwelliant hwn yn effeithio ar y pŵer i gyfarwyddo’r parti i’r contract i ymrwymo i gontract sicrwydd refeniw o dan gymal 1 (y mae LCM eisoes wedi’i gyflwyno ar ei gyfer), sy’n ceisio annog twf diwydiant tanwydd hedfan cynaliadwy a sefydlog yn y DU, fy marn i yw bod y gwelliant hwn yn ymdrin â datblygu economaidd a diogelu’r amgylchedd. Gan fod y materion hyn wedi’u datganoli, rwy’n credu bod y gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf at ddibenion y prawf yn RhS 29.2(iii).

**Cymal 6:**
Yn darparu na fydd yr ardoll ar gyflenwyr yn ariannu unrhyw gostau a ysgwyddir wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan gymal 1(5) newydd.

14. Mae'r gwelliant hwn yn diwygio cymal 6, tudalen 4, llinell 16.

15. Mae cymal 6 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai cyflenwyr tanwydd hedfan dalu ardoll fel y gall y parti i’r contract ariannu costau yr eir iddynt o dan y Bil.

16. Mae'r gwelliant yn darparu na fydd yr ardoll yn ariannu unrhyw gostau yr eir iddynt wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan gymal 1(5) newydd (cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gwmni i ddarparu cymorth i adnabod cynhyrchwyr).

17. Rwy’n credu bod y gwelliant yn ymdrin â materion datganoledig, sef datblygu economaidd a diogelu’r amgylchedd a bod y prawf yn RhS29 wedi’i fodloni. Hynny am fod y gwelliant yn diwygio cymal 6 i osod cyfyngiad newydd ar sut y gellir defnyddio’r ardoll a chan mai bwriad yr ardoll yw ariannu’r fecanwaith sicrwydd refeniw, rhaid ei ystyried yng nghyd-destun cyfarwyddydau gweithredu o dan gymal 1 (sy’n ceisio annog twf diwydiant tanwydd hedfan cynaliadwy a sefydlog yn y DU). Rwy’n credu bod y gwelliant yn newid cwmpas pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol y gwnaed cais am gydsyniad ar ei gyfer; felly, mae’n gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf, gan fodloni’r prawf o dan RhS 29.2(iii).

**Cymal 8:**
Yn caniatáu i reoliadau'r ardoll ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynorthwyo i gasglu a darparu gwybodaeth a gosod gofynion ar bobl i ddarparu'r wybodaeth honno.

18. Mae'r gwelliant hwn yn diwygio cymal 8, tudalen 5, llinell 14.

19. Mae'n darparu y gall rheoliadau'r ardoll roi swyddogaethau i’r parti i’r contract mewn cysylltiad â gweinyddu a gorfodi'r ardoll a gall ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynorthwyo’r parti i gontract yn y swyddogaethau hynny drwy gasglu a darparu gwybodaeth i’r parti i’r contract.

20. Caiff rheoliadau'r ardoll osod hefyd ofyniad ar bersonau i ddarparu gwybodaeth i’r parti i’r contract neu'r Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gorfodi'r ardoll.

21. Rwy’n credu bod y gwelliant yn ymwneud â’r materion datganoledig, sef datblygu economaidd a diogelu’r amgylchedd a bod y prawf yn RhS29 wedi’i fodloni. Hynny am fod y gwelliant yn gosod swyddogaethau a gofynion newydd ar y parti i’r contract, yr Ysgrifennydd Gwladol a phersonau eraill mewn cysylltiad â gweinyddu a gorfodi’r ardoll (gan drwy hynny gefnogi gweithredu cymal 6) a chan mai bwriad yr ardoll yw ariannu’r fecanwaith sicrwydd refeniw, rhaid ei ystyried yng nghyd-destun cyfarwyddydau gweithredu o dan gymal 1 (sy’n ceisio annog twf diwydiant tanwydd hedfan cynaliadwy a sefydlog yn y DU). Rwy’n credu bod y gwelliant yn newid cwmpas y pŵer gwneud rheoliad y gwnaed cais am gydsyniad ar ei gyfer. Felly, rwy’n credu bod y gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf, gan fodloni’r prawf o dan RhS 29.2(iii).

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

22. Barn Llywodraeth y DU yw bod yr holl welliannau yn dechnegol eu natur ac nad oes angen SLCM. Fodd bynnag, rwy’n credu bod dadl gryfach bod y gwelliannau i gymalau 1, 6 ac 8 o'r Bil yn ddarpariaethau perthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 o Reolau Sefydlog y Senedd ("RhS 29") am eu bod yn gwneud darpariaeth am y tro cyntaf mewn perthynas â Chymru

sy'n ymdrin â materion datganoledig. Ystyrir felly fod angen SLCM mewn perthynas â'r gwelliannau hynny.

23. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r gwelliannau sy'n weddill yn y Bil gan eu bod yn fân welliannau teipograffig a chanlyniadol, ac felly daw i'r casgliad nad yw'n credu bod angen SLCM ar gyfer y gwelliannau hynny.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil**

24. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'r heriau byd-eang mwyaf. Er bod y diwydiant hedfan ond yn cyfrif am 2-3% o allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang heddiw, rhagwelir y bydd yn un o'r allyrwyr gweddilliol mwyaf yn 2050 wrth i sectorau eraill â mwy o botensial i leihau allyriadau wneud hynny. Ein huchelgais yw datgarboneiddio pob sector o'n heconomi.

25. Mae cyllidebau carbon Cymru yn cynnwys holl allyriadau hedfan Cymru, gan gynnwys teithiau hedfan domestig a thramor. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgeisiau o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru drwy Sero Net Cymru ac mae hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau lleihau allyriadau priodol.

26. Mae polisi hedfanaeth yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Mae natur hedfan yn y DU yn golygu bod llawer o deithwyr o Gymru yn defnyddio, neu'n gallu dewis defnyddio, meysydd awyr yn Lloegr sydd â goblygiadau i effeithiolrwydd posibl polisïau yng Nghymru.

27. Cydnabyddir yn gyffredinol nad yw'r her fwyaf o ran gwneud hedfan sifil yn gynaliadwy yn gysylltiedig ag unrhyw ateb technegol penodol, ond gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd ar y cyflymder gofynnol. Mae'r cynnydd i sero net yn dibynnu ar bob rhan o'r gadwyn gyflenwi yn gweithio tuag at nod cyffredin, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr awyrennau, cwmnïau hedfan, meysydd awyr a darparwyr eu gwasanaethau.

28. Rydym yn ystyried sut y gall Cymru gefnogi datblygu a mabwysiadu technolegau hedfan mwy cynaliadwy orau.

29. Gyda sector awyrofod hirsefydlog yng Nghymru, ei hanes diwydiannol cyfoethog a'i weithlu medrus iawn, sy'n edrych tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, rydym mewn sefyllfa dda i chwarae rôl arwyddocaol wrth ddatblygu deunyddiau crai ar gyfer tanwydd hedfan cynaliadwy (SAF) o ffynonellau nad ydynt yn amaethyddol ac rydym eisoes yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn hyn o beth.

30. Gall datblygiadau mewn SAF fod yn ddadleuol. Nid yw'r byd yn cynhyrchu digon i gwrdd â'r galw presennol gan y diwydiant. Mae nifer o ffyrdd o'i gynhyrchu, gan gynnwys o gnydau a deunyddiau crai penodol,

ond byddai angen defnyddio llawer iawn o dir fferm i ateb y galw byd-eang.

31. Fodd bynnag, rydym yn gefnogol o’r Bil, gan ei fod yn ystyried bod SAF yn ffordd o leihau allyriadau carbon dros dro, wrth i'r diwydiant fynd ati i ddatblygu awyrennau allyriadau sero newydd, megis awyrennau sy’n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan.

**Goblygiadau ariannol**

32. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru.

**Casgliad**

33. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau o ran leihau allyriadau. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'n heriau byd-eang mwyaf ac mae hyn yn gofyn am weithredu ar lefel y DU gyfan trwy Fil ar gyfer y DU. Bwriad y mecanwaith sicrwydd refeniw SAF a gyflwynwyd fel rhan o'r Bil yw bod yn fesur cyfyngedig o ran amser i ysgogi marchnad gynnar ar gyfer SAF. Ni fydd ei angen mwyach unwaith y bydd gan fuddsoddwyr hyder ym mhris y farchnad a bod y dechnoleg gyntaf o'r fath wedi profi ei hun ar raddfa fasnachol. Rydym yn ystyried SAF fel ateb dros dro i leihau carbon, wrth i’r diwydiant edrych ar ddatblygu awyrennau allyriadau sero, fel awyrennau sy’n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan.

34. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r gwelliannau ac yn rhoi ei chydsyniad i'r rhai sy'n ymwneud â swyddogaethau datganoledig y Senedd.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**4 Tachwedd 2025**